




Mae Mentro wedi'i lunio i baru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n barod i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am gyfle i gychwyn ffermio yn annibynnol. Mae'n rhoi arweiniad i bobl ar y ddwy ochr trwy'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig sy'n cynnwys hyfforddiant, mentora, cyngor arbenigol a chefnogaeth busnes yn darparu'r wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i gynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan i gyflawni eu hamcanion.

Gallai'r camau allweddol ar y **daith Mentro** gynnwys y canlynol...






* Mae cyfranogwyr gweithredol yn cyfeirio at y rheini sydd wedi'u cofrestru'n llawn drwy gwblhau proffil Mentro neu sydd ar hyn o bryd yn cael cyngor ar wneud cynllun busnes i sefydlu cyd-fenter.

* Roedd yr erwau o dir dan sylw yn cynnwys arwynebedd tir yr holl Ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru ar y rhaglen, gan gynnwys tir sy'n cael ei hysbysebu, tir sydd â Cheisiwr posibl wedi'i neilltuo ar ei gyfer, tir sy'n rhan o gyd-fenter a gwblhawyd a thir y rheini sydd yng nghanau cynnar y broses.

* Mae darparwyr sy'n cynnig cyfle yn cyfeirio at dirfeddianwyr sy'n hysbysebu eu cyfle'n gyhoeddus ar hyn o bryd.

* Mae rhai sydd wedi cael eu paru yn cynnwys y rheini sy'n datblygu cyd-fenter newydd gyda darpar bartner busnes a hefyd y rheini sydd wedi cwblhau'r broses ac wedi sefydlu cyd-fenter newydd.



Digwyddiadau



Gwahoddwyd Ceiswyr ar y rhaglen Mentro i fynychu Bwtcamp Busnes Cyswllt Ffermio, lle cynhaliwyd tair sesiwn. Cynlluniwyd y Bwtcamp Busnes i roi'r hyder, y sgiliau a'r cymhelliant i newydd-ddyfodiaid i amaethyddiaeth fanteisio ar gyfleoedd, datblygu busnesau effeithlon ac adeiladu gyrfa lwyddiannus. Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf yn rhithiol ym mis Ionawr, yr ail yn arhosiad preswyl yng Nglan-llyn Isaf, ger y Bala, ym mis Chwefror, a'r trydydd oedd sesiwn undydd a gynhaliwyd yn y Moody Cow, ger Aberaeron, ym mis Mai.

Roedd y siaradwyr yn cynnwys rheolwyr banc, ymgynghorwyr busnes ffermydd, arbenigwyr ariannol, mentoriaid olynu, a ffermwyr entrepreneuriaidd sydd wedi mentro i fusnesau newydd.

Roedd yr adborth o'r sesiynau'n cynnwys:

- Addysgiadol, ac agoriad llygad
- Sesiwn dda i weld pobl ifanc o'r un anian sydd mewn sefyllfaoedd tebyg i chi'ch hun ac amgylchedd gwych i siarad a chael atebion i gwestiynau gan weithwyr proffesiynol.
- Ysgogol i wneud mwy gyda busnes ffermio, a chwrdd â grŵp gwych o ffermwyr.



Ceiswyr ar y rhaglen Bwtcamp Busnes Cyswllt ffermio yn ystod y tair sesiwn.

Astudiaeth Achos



Becca Morris a Bryn Perry.

Yn ddiweddar, enillodd y ffermwr llaeth defaid o Sir Benfro, Bryn Perry, wobwr fawreddog, sef Gwobr Goffa Brynle Wiliams, sy'n cydnabod cyflawniadau ffermwr ifanc sydd wedi sefydlu busnes ffermio drwy raglen Mentro Cyswllt Ffermio. Mae Bryn, nad yw'n dod o gefndir amaethyddol, yn canmol Cyswllt Ffermio am roi iddo'r llw o'r sgiliau busnes a ffermio sydd gan y ffermwr ifanc ac uchelgeisiol hwn bellach.

Mae Bryn a'i bartner Becca Morris, y ddau yn eu 30au cynnar, yn cadw diadell o tua 120 o famogiaid Dwyrain Ffrisia – brid sy'n enwog am ansawdd eu llaeth – ar dyddyn sy'n eiddo i'r cyngor, Fferm Wernllwyd, ger Hwlfordd, lle symudon nhw yn gynnar yn 2021.

Mae diwydiant godro defaid y DU yn dal yn gymharol newydd, ond mae'r pâr entrepreneuriaidd hwn yn manteisio ar y farchnad hon sy'n tyfu'n gyflym, mewn mwy nag un ffordd! Diolch i ystod o wasanaethau cymorth gan Cyswllt Ffermio, mae Bryn a Becca wedi sefydlu cydweithrediadau gyda nifer o ffermwyr sydd yr un mor uchelgeisiol yng ngorllewin Cymru. O ganlyniad, maent eisoes yn prosesu llaeth i'w droi yn amrywiaeth o gawsiau llaeth mamogiaid Cymreig arbennig tebyg i gaws Feta, Halloumi, glas a Manchego, ac yn ddiweddar, maent wedi lansio eu brand eu hunain o fodca maidd llaeth mamogiaid o'r enw 'Ewenique'.

"Yn hollbwysig, cawsom lawer iawn o gymorth gan Cyswllt Ffermio, ac fe wnaeth hynny nid yn unig fy helpu i ddatblygu fy sgiliau fel person busnes a ffermwr defaid, ond mae hefyd wedi ein galluogi i sefydlu ein cyd-fenter enter gyntaf gyda'r cynhyrchwyr llaeth defaid adnabyddus Nick a Wendy Holtman, sy'n berchen ar Defaid Dolwerdd yng Nghrymych", meddai Bryn.

"Cwrddais â Nick a Wendy mewn marchnad cynhyrchwyr lleol ac ar ôl llawer o sgysiau, sylweddolom y gallai gyflwyno llawer o fanteision o ran maint ac effeithlonrwydd pe baem yn gweithio gyda'n gilydd."

Gwnaeth y ddau deulu gais am fentora, cynllunio busnes a chyngor cyfreithiol wedi'i ariannu'n llawn Mentro, a'u galluogodd i sefydlu eu cyd-fenter lwyddiannus, sydd bellach yn ei hail flwyddyn.

Tua'r un amser, gwahoddwyd Bryn i ymuno â 'Bwtcamp Busnes' Cyswllt Ffermio, cwrs preswyl byr a ddyluniwyd i roi hyder, sgiliau a chymhelliant i unigolion o'r un anian i ddatblygu eu gyrfa ac adeiladu busnes tir llwyddiannus.

"Roedd yna siaradwyr anhygoel ac ysbrydoledig, ac roeddwn i'n sicr y gallwn i a Becca, gyda'r agwedd gywir a gwaith caled, redeg ein busnes fferm ein hunain o fewn dwy flynedd."

Cymorthfeydd



Rhwng mis Rhagfyr 2021 a diwedd mis Mai 2022, cynhaliwyd tair Cymhorthfa Olyniath mewn perthynas â chyd-fentrau. Roedd y busnesau am drafod gyda'r ymgynghorwyr faterion megis modelau gwahanol, goblygiadau treth, yr hyn a oedd yn gysylltiedig â ffermio a rennir, ac a fyddai'n ymarferol ac yn opsiwn addas iddynt.

